**Cyngor Tref Rhuddlan – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mai 2024**

**Cyfarfod Hybrid**

**Yn bresennol:**
Y Cynghorydd Val Simmons (Maer)
Y Cynghorydd Jackie Burnham (Dirprwy Faer)
Y Cynghorydd Ivor Beech
Y Cynghorydd Reg Davies
Y Cynghorydd Mike Elgin (yn bresennol yn rhithiol)
Y Cynghorydd Mike Kermode
Y Cynghorydd Arwel Roberts (cyrraedd yn hwyr)
Y Cynghorydd Gareth Rowlands
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Steve Wilson - Clerc y Dref
Paul Smith – Cynorthwyydd Clerigol /Clerc Cofnodion (yn bresennol yn rhithiol)

Roedd 1 aelod o'r cyhoedd yn bresennol a 2 Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO)

**1. Hyfforddiant Bioamrywiaeth**
Cyflwynwyd gan Liam Blazey Uwch Swyddog Bioamrywiaeth CSDd.
Esboniodd Liam fod amrywiadau o ran bywyd ar draws y blaned yn bwysig i fioamrywiaeth am wahanol resymau, ac aeth ymlaen i esbonio mwy yn ei gyflwyniad. Cafodd sleidiau am Gyflwr Natur yng Nghymru a Phrydain eu cymharu a thrafodwyd sut mae bioamrywiaeth nid yn unig yn helpu pobl i wella iechyd meddwl, lefelau straen, ac iechyd corfforol, ond hefyd i reoli dŵr, ansawdd yr aer, a pheillio cnydau.
Esboniwyd astudiaeth achos CSDd ar thema dolydd trefol, sefydlogrwydd ecosystemau, a chyfrifoldeb moesegol pawb mewn perthynas â bioamrywiaeth.
Dilynwyd hyn gan gwestiynau gan y Cynghorwyr a chafwyd atebion llawn gwybodaeth, cyn dod i ben gyda'r Cynghorydd Ivor Beech a gynigiodd fod yr aelodau yn dod ar ymweliad â'i fferm i weld sut mae bioamrywiaeth yn cael ei blethu i waith y fferm. Derbyniodd y Cynghorwyr y gwahoddiad caredig hwn, a bydd dyddiad yn cael ei gadarnhau yn y dyfodol.
**Penderfynwyd.**
Diolchodd y Maer i Liam am ddod i'r cyfarfod a rhoi cyflwyniad diddorodol a dechreuodd cyfarfod y Cyngor Llawn am 7.05 pm. Gadawodd Liam y cyfarfod.

Cafodd y cyfarfod ei recordio o'r pwynt hwn (sain yn unig)

Cyfeiriodd yr Aelodau at y ffaith os bydd y dechnoleg yn methu yn ystod cyfarfod rhithiol, yna mae dyletswydd ar yr Aelodau i ddod i'r cyfarfod ei hun.

**2. Ymddiheuriadau**
Y Cynghorwyr Ann Davies a Rob Williams

**3 Datgan Buddiant**
Y Cynghorydd Mike Elgin a'r Cynghorydd Arwel Roberts, eitem 16a.

**4. Materion Brys**
Dim

**5. Materion yr Heddlu**
Roedd PCSO Alexandra Jones a Ben Harmsworth yn bresennol. Roedd yr adroddiad troseddu diweddaraf ar gyfer y 12 mis diweddaf yn cofnodi bod 1034 o ddigwyddiadau, roedd 26 yn unig o'r rhain yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac roedd hyn yn cael ei ystyried yn dda o'i gymharu ag ardaloedd cyfagos eraill. Cafwyd trafodaeth fer am sgamio ar-lein a sut i fynd i'r afael â hyn, a chafwyd rhybudd bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn tueddu i gynyddu yn Rhuddlan ger yr afon yn ystod misoedd yr haf.
Gofynnodd y Cynghorydd Arwel Roberts am fanylion digwyddiad pan roedd car wedi bod mewn gwrthdrawiad yn y Warchodfa Natur ar y Sul blaenorol. Nid oedd gan yr heddlu unrhyw fanylion pellach.
Gofynnodd y Cynghorydd Mike Kermode sut roedd busnesau bach yn ymdopi â'r cynnydd mewn achosion o ddwyn o siopau a sut roedd yr heddlu yn ymdrin â hyn. Mewn ymateb, dywedwyd na chafwyd unrhyw adroddiadau am ddwyn o siopau yn y Ffordd Fawr, heblaw am y SPAR. Pan dderbynnir adroddiad am ddwyn mae'r heddlu yn gofyn am weld lluniau teledu cylch cyfyng er mwyn helpu i adnabod y troseddwyr, ac ar ôl iddynt gael eu hadnabod byddant yn siarad â nhw a gallai arwain at eu gwahardd o'r siop neu eu harestio.
Gofynnodd y Cynghorydd Ivor Beech am ddigwyddiad pan gafodd drws ei dorri ac a oedd cysylltiad rhwng hyn ag achos terfysgol, nid oedd gan yr heddlu unrhyw fanylion am hyn ac awgrymwyd y gallai fod yn ddim byd mwy na si.
Cyfeiriodd y Cynghorydd Reg Davies unwaith yn rhagor at bobl sy'n gyrru beiciau'n beryglus ar balmentydd. Cafwyd trafodaeth am arwyddion sy'n cyfeirio at ddefnydd cymysg beicwyr/cerddwyr, arwyddion yn dweud y dylai beicwyr ddod oddi ar eu beiciau a'r gyfraith gysylltiedig. Dywedodd PCSO Jones y byddai hi'n edrych i mewn i'r mater ac yn adrodd yn ôl.
Dywedodd PCSO Hamsworth fod y defnydd peryglus o e-sgwteri yn achosi niwsant ac fe wnaeth atgoffa'r Aelodau y byddai angen gwybodaeth neu luniau teledu cylch cyfyng i adnabod y troseddwyr er mwyn sicrhau euogfarn.
Fe wnaeth y Cynghorydd Gareth Rowlands ddiolch i'r heddlu am y ffordd roeddynt wedi ymdrin â digwyddiad yn ymwneud â cholli paent ar ei eiddo ac ar balmant yr Hwb.
Fe wnaeth y Clerc atgoffa'r swyddogion bod Gŵyl Gwledd yn cael ei chynnal ddydd Sadwrn, 18 Mai.
Fe wnaeth y Maer ddiolch i PCSO Jones a Hamsworth am ddod, yna gwnaeth y swyddogion heddlu adael y cyfarfod.

**5a. Cofnodion cyfarfod Cyngor y Dref a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2024.**

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'n bosibl i'r Cofnodion ddangos pa Aelodau oedd yn mynychu'n rhithiol, yn ogystal â'r rhai sy'n cyrraedd cyfarfodydd yn hwyr neu'n gadael yn gynnar. **Penderfynwyd**

Cynigiodd y Cynghorydd Gareth Rowlands y dylid cymeradwyo'r Cofnodion, eiliwyd gan y Cynghorydd Jackie Burnham. **Penderfynwyd**

**7. Adroddiad Cynnydd ar sail y Cofnodion**

i) Ychwanegwyd y canllawiau Datgan Buddiant at yr agenda.

ii) Derbyniwyd grant o £2000 at y ffair wirfoddolwyr.

iii) Roedd y beirniaid wedi dewis enillwyr cystadleuaeth posteri diogelwch y ffyrdd Ysgol y Castell yn ddiweddar, a byddwn yn cyflwno'r gwobrau i'r enillwyr tua diwedd y tymor.

iv) Mae Prif Swyddog Gweithredol Twristiaeth Gogledd Cymru wedi cadarnhau y bydd yn dod i'r cyfarfod ym mis Gorffennaf.

v) Ar fater toiledau cyhoeddus CSDd, derbyniwyd dogfen ac roedd gan y Cyngor tan 4 Gorffennaf i ymateb yn ffurfiol. Bydd y mater yn cael ei roi ar agenda cyfarfod mis Mehefin.

vi) Clywodd yr Aelodau fod y Lleng Brydeinig wedi cynnig torch ar gyfer y digwyddiad i gofio D Day. Cynigiodd y Cynghorydd Mike Kermode fod y Cyngor yn prynu torch, eiliwyd gan y Cynghorydd Gareth Rowlands. Penderfynwyd

vii) Bydd adroddiad yr archwilydd mewnol ar agenda mis Mehefin.

viii) Mae'r man parcio anabl ar y Ffordd Fawr wedi cael ei ailbaentio.

**8. Gohebiaeth gan:**

**a. Adroddiadau'r Maer a'r Dirprwy Faer**

Dosbarthwyd adroddiad olaf y Maer sy'n ymddeol, dywedodd fod ei elusennau enwebedig wedi derbyn £3,500 yn ystod ei flwyddyn yn y swydd a diolchodd yn ddiffuant i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

Cafodd £1,150 ei gyfrannu'n ffurfiol i Tŷ Gobaith ar 8 Mai.

Roedd y cyfarfod cyhoeddus i drafod gwasanaeth casglu gwastraff newydd CSDd wedi bod yn llwyddiannus yn ei farn ef, ac roedd yn ymddangos bod preswylwyr yn hapus ynglŷn â sut byddai'r drefn yn gweithio. Mynegwyd rhai pryderon ynglŷn â phobl â materion iechyd gwybyddol a allai roi'r sbwriel anghywir yn y bin anghywir. Gall CSDd gynnig cymorth ar y mater hwn. Dywedodd y Maer sy'n ymddeol fod blociau fflatiau yn poeni bod eu biniau yn agored i'r cyhoedd ac y gallai pobl roi eitemau anghywir yn y biniau anghywir.

Esboniodd y Clerc sut byddai system ailgylchu gwastraff Hwb y Cyngor yn gweithredu ar ôl derbyn y biniau newydd.

**Derbyniwyd yr adroddiad**

Dosbarthwyd adroddiad olaf y Dirprwy Faer sy'n ymddeol a dywedodd y Cynghorydd Simmons wrth yr Aelodau ei bod hi wedi mynychu cyfarfod y Treasure Chest sydd â diddordeb mewn archebu'r Hwb i gynnal ei gyfarfod nesaf. Arweiniodd hyn at drafodaeth fer ynglŷn â chaniatáu i fudiadau elusennol ddefnyddio'r Hwb am ddim.

Cynigiodd y Cynghorydd Mike Kermode y dylid caniatáu defnydd o'r fath am ddim, eiliwyd gan y Cynghorydd Mike Elgin. **Trechwyd y cynnig.**
**Derbyniwyd yr adroddiad**

**b. Adroddiad Clerc y Dref**
Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad gan dynnu sylw at yr eitemau canlynol:

- Derbyniwyd e-bost gan Swyddfa Archwilio Cymru yn cadarnhau nad oes angen i Gyngor Tref Rhuddlan gyflwyno unrhyw fanylion pellach ond rydym yn dal i aros am ganlyniad archwiliad llawn y llynedd.
- Mae Mr John Saunders Lewis wedi ysgrifennu at y Cyngor i ofyn am gymorth i gynnal digwyddiad elusennol ym mis Medi i ddathlu 80 mlynedd o amaethyddiaeth ar Fferm Pengwern. Roedd yr Aelodau yn ymwybodol o'r ffaith fod y gŵr hwn wedi cael problemau iechyd a'i fod eisiau trefnu'r digwyddiad er mwyn diolch i'r GIG am y driniaeth mae wedi'i derbyn. Ni ellir ystyried hyn gan ddefnyddio'r drefn ceisiadau grant arferol gan ei fod yn ymwneud ag ymgeisydd unigol ac ni chaiff hyn ei ganiatáu o dan y cynllun grantiau.
  Ar ôl trafod y ffordd orau o gefnogi'r cais hwn, cynigiodd y Cynghorydd Gareth Rowlands fod y Pwyllgor Digwyddiadau yn ystyried sut gellid gwneud hyn. Eiliwyd gan y Cynghorydd Mike Kermode. **Penderfynwyd.**
- Roedd y Clerc wedi derbyn e-bost gan Swyddog Hawliau Tramwy CSDd yn holi ai Cyngor y Dref sy'n berchen ar fainc ger llwybr afon Clwyd. Nid yw'r fainc ar restr asedau'r Cyngor a chadarnhaodd yr Aelodau nad yw'n berchen i Gyngor Tref Rhuddlan. Y Clerc i roi gwybod i CSDd am hyn. **Penderfynwyd.**

**9. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir**

Roedd y Cynghorydd Arwel Roberts wedi dosbarthu adroddiad ysgrifenedig at sylw'r Aelodau.

Roedd yn dymuno ychwanegu ei fod wedi mynychu cyfarfod diweddar o'r grŵp MS lleol a dywedodd ei fod yn ddiddorol ac yn llawn gwybodaeth.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Roberts at gyflwr llwybr yn yr hen ffos a dywedodd fod CSDd yn gwybod am hyn ond nad oedd adnoddau ar gael i'w gynnal. Ychwanegodd aelod fod lôn yr hen briffordd mewn cyflwr gwael hefyd a bod hyn yn fater i CSDd hefyd.

**Derbyniwyd yr adroddiad**

Roedd y Cynghorydd Ann Davies wedi dosbarthu adroddiad ysgrifenedig at sylw'r Aelodau.
Gofynnodd Aelod a oedd gan y Cynghorydd Arwel Roberts ragor o wybodaeth ynglŷn â'r eitem yn yr adroddiad a oedd yn cyfeirio at y swm gohiriedig o £55,000. Nid oedd gan y Cynghorydd Roberts ragor o wybodaeth.
**Derbyniwyd yr adroddiad**

**10. Cofnodion y Pwyllgor Digwyddiadau a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2024**

Cynigiodd y Cynghorydd Arwel Roberts fod y Cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod, eiliwyd gan y Cynghorydd Mike Kermode. **Penderfynwyd.**
Fe wnaeth y Cynghorydd Arwel Roberts atgoffa'r Clerc y byddai arno angen rhifau diogelwch gatiau maes parcio Ysgol y Castell ar gyfer Gŵyl Gwledd. Dywedodd y Cynghorydd Jackie Burnham fod gwaith adeiladu yn mynd rhagddo yn y maes parcio yn y cefn felly byddai'n holi'r ysgol ddydd Gwener ac yn cysylltu â'r Clerc. **Penderfynwyd.**

**11. Cofnodion y Gweithgor Diogelwch y Ffyrdd a gynhaliwyd ar 2 Mai 2024**

Cynigiodd y Cynghorydd Mike Kermode fod y Cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod, eiliwyd gan y Cynghorydd Jackie Burnham. **Penderfynwyd.**
Fe wnaeth y Cynghorydd Mike Elgin ailadrodd y ffaith bod y beirniaid bellach wedi dewis enillwyr y gystadleuaeth posteri diogelwch y ffordd, nid oedd unrhyw ddiweddaraiad ar fater Teithio Llesol, a dywedodd y cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r terfyn cyflymder 20mya a'u hawgrymiadau ar gyfer pa ffyrdd ddylai ddychwelyd i 30mya. Dywedodd yr Aelodau y gallai Cyngor Tref Rhuddlan gasglu barn pobl leol am y ffyrdd hyn ac anfon y sylwadau ymlaen at Lywodraeth Cymru, gan esbonio nad yw'r awgrymiadau yn cynrychioli barn Cyngor Tref Rhuddlan, ond yn hytrach y preswylwyr lleol. **Penderfynwyd**.

**12. Cofnodion Pwyllgor y Fynwent a gynhaliwyd ar 7 Mai 2024**

Roedd cynrychiolwyr Cynghorau Cymuned Rhuddlan, Llanelwy, a'r Rhyl wedi cyfarfod i drafod ffordd ymlaen i geisio cael mynwent newydd ar gyfer yr ardal gyfan.
Roedd pob cynrychiolydd wedi cael cyfle i gyflwyno ei safbwynt ar y mater hwn ac roedd y drafodaeth wedi canolbwyntio ar y ffaith nad oedd barn CSDd yn dderbyniol, a fyddai unrhyw fynwent newydd ar gael i breswylwyr lleol yn unig, ac adroddiad desg am ddim posibl gan ymgynghorydd arbenigol ar unrhyw safleoedd dan ystyriaeth.
Cytunwyd mai'r cam nesaf oedd cyflwyno cais ar y cyd gan yr holl gynghorau lleol yn ardal y Grŵp Ardal Aelodau am fynwent newydd gerbron Pwyllgor Craffu Cymunedau CSDd, gyda'r nod y bydd y mater yn cael ystyriaeth ar lefel Cabinet CSDd.
Cytunodd y Cynghorydd Arwel Roberts, fel Cynghorydd Sir Rhuddlan. Cynigiodd y Cynghorydd Gareth Rowlands y dylid derbyn y Cofnodion, a bod Cyngor Tref Rhuddlan yn cefnogi'r camau a awgrymwyd. Eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts**. Penderfynwyd.**

**13. Diweddariad o gyfarfod Gweithgor y Llyfrgell a'r Amgueddfa a gynhaliwyd ar 14 Mai 2024**

Fe wnaeth y Cynghorydd Gareth Rowlands (cadeirydd) gadarnhau pwy oedd yn bresennol a dywedodd mai prif nod y grŵp oedd ymchwilio i gyfleoedd ariannu. Mae'r grŵp yn dymuno creu dau brosiect; cynaliadwyedd y llyfrgell yn y dyfodol ac estyniad i'r amgueddfa. Roedd pawb a oedd yn bresennol yn poeni am ddyfodol y llyfrgell a dywedwyd y byddai angen cymorth ac adnoddau CSDd i wneud cais am arian i ddylunio ac adeiladu amgueddfa. Bydd y Cynghorydd Rowlands yn mynd i ddigwyddiad Cyfarfod yr Ariannwyr a gynhelir ym mis Mehefin.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 12 Mehefin 2024 am hanner dydd.

**14. Cynhadledd Un Llais Cymru, dydd Mercher, 3 Gorffennaf 2024**

Thema'r gynhadledd yw arfer arloesol a byddai'n fuddiol i'r cyngor anfon aelod i'r gynhadledd a/neu'r Clerc. Cynigiodd y Cynghorydd Mike Kermode y dylai unrhyw Aelod a'r Clerc fynychu'r gynhadledd a chael eu hariannu gan y cyngor. Eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts. **Penderfynwyd.**

**15. Cynllunio**

**Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau**

**16. Y Gyllideb a Materion Ariannol**

a. Ceisiadau am grantiau

*Clwb Bowlio Rhuddlan* – Gofynnwyd i'r Cynghorydd Arwel Roberts ddarllen gwybodaeth a ddarparwyd gan y clwb ac yna gadawodd y cyfarfod ynghyd â'r Cynghorydd Mike Elgin gan eu bod wedi datgan buddiant.

Fe wnaeth y Clerc atgoffa'r Aelodau am y grantiau roedd y clwb bowlio wedi'u derbyn eisoes yn ystod y 3 blynedd diwethaf. Trafododd yr Aelodau y cais a chytunwyd y byddai'r cyngor yn talu arian cyfatebol yn unig, yn hytrach na'r swm llawn. Cynigiodd y Cynghorydd Gareth Rowlands y dylid caniatáu 60% o'r cais, eiliwyd gan y Cynghorydd Jackie Burnham.

Cynigiodd y Cynghorydd Mike Kermode welliant, sef y dylid caniatáu £400 gyda'r clwb yn darparu'r arian cyfatebol sy'n weddill. Eiliwyd gan y Cynghorydd Ivor Beech. **Penderfynwyd.**

Fe wnaeth y Cynghorwyr Arwel Roberts a Mike Elgin ailymuno â'r cyfarfod a chawsant wybod am y canlyniad.

*River & Sea Sense (RASS)* – Cafodd y mudiad hwn ei sefydlu gan fam ar ôl i'w mab foddi mewn damwain. Nod y mudiad yw addysgu pobl ifanc am beryglon dŵr agored. Mae'r cais am £450 i hyfforddi dau athro yn Ysgol y Castell. Dywedodd y Cynghorydd Jackie Burnham (Cadeirydd llywodraethwyr yr ysgol) fod anghysondeb rhwng yr hyn a ddywedwyd wrth yr ysgol a'r wybodaeth yn y cais grant. Oherwydd hyn, cynigiodd y Cynghorydd Mike Kermode y dylid cytuno mewn egwyddor i'r grant

i hyfforddi'r athrawon ac aros i dderbyn cadarnhad gan yr ysgol mai dyma'r hyn sy'n cael ei gynnig. Eiliwyd gan y Cynghorydd Gareth Rowlands. **Penderfynwyd.**

*Eisteddfod Ryngwladol Llangollen* – derbyniwyd llythyr yn gofyn am gyfraniad amhenodol tuag at y costau. Yn dilyn trafodaeth, cynigiodd y Cynghorydd Jackie Burnham y dylid rhoi £50, eiliwyd gan y Cynghorydd Gareth Rowlands. Cynigiodd y Cynghorydd Arwel Roberts welliant i'r cynnig, sef grant o £200, eiliwyd gan y Cynghorydd Bleddyn Williams. Trechwyd y gwelliant a phasiwyd y cynnig gwreiddiol. **Penderfynwyd.**

*Kids Cancer Charity* – derbyniwyd llythyr yn gofyn am grant amhenodol. Trafodwyd y cais gan yr Aelodau a gwnaethant gytuno i beidio â rhoi unrhyw arian i'r elusen y tro hwn, cynigiwyd gan y Cynghorydd Mike Kermode, eiliwyd gan y Cynghorydd Jackie Burnham. **Penderfynwyd.**

b. Rhestr Daliadau
Cynigiodd y Cynghorydd Gareth Rowlands y dylid cytuno i'r taliadau ar y rhestr, eiliwyd gan y Cynghorydd Mike Kermode. **Penderfynwyd.**

c. Cytuno ar daliadau i Aelodau
Yn dechnegol, cafodd y taliadau hyn eu cymeradwyo pan gafodd y gyllideb ei phennu ond fe wnaeth y Clerc atgoffa'r Aelodau am fanylion y taliadau ac fe wnaeth ddosbarthu copïau caled o ffurflen daliadau'r Aelodau er mwyn iddynt eu llenwi a'u llofnodi. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts, eiliwyd gan y Cynghorydd Mike Kermode. **Penderfynwyd.**

**17. Materion Cymunedol**

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Ivor Beech at y ffaith bod materion yn ymwneud â choed a chwyn yn afon Clwyd cyn waethed ag erioed a bod risgiau i Ruddlan os na fyddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu. Cynigiodd y Cynghorydd Mike Kermode y dylid gwahodd cynrychiolydd o CNC i gyfarfod yn y dyfodol i drafod y pryderon, eiliwyd gan y Cynghorydd Jackie Burham. **Penderfynwyd**
- Gofynnodd y Cynghorydd Gareth Rowlands a fyddai'n bosibl cysylltu â Health Prestatyn Iach i gael diweddariad ynglŷn â phryd bydd ar agor yn rheolaidd.
- Dywedodd y Cynghorydd Rowlands fod gwely blodau ym maes parcio'r llyfrgell heb gael ei gynnal ac roedd am ofyn i CSDd pryd byddai hyn yn digwydd.
- Roedd y Cynghorydd Rowlands wedi gweld plentyn yn cerdded o'r maes chwarae i'r toiledau cyhoeddus yn yr Hwb ac roedd bron iawn â chael ei daro gan gar. Awgrymodd fod Cyngor Tref Rhuddlan yn paentio ARAF/SLOW ar y tarmac. Ychwanegodd y Cynghorydd Jackie Burnham y gellid hefyd ystyried marcio'r groesfan i gerddwyr a gosod arwydd yn dangos llun "perygl, plant yn chwarae".

- Mynegodd y Cynghorydd Burnham bryderon ynglŷn â phreswylwyr sy’n taflu eu sbwriel cartref yn y biniau yn yr Hwb, y maes chwarae ac yn Stryd y Senedd. Cytunodd yr Aelodau i roi gwybod i CSDd am hyn. **Penderfynwyd.**
- Gofynnodd y Cynghorydd Arwel Roberts a fyddai’n bosibl cyfieithu’r plac sydd ar wal allanol yr Hwb i’r Gymraeg. Cytunodd yr Aelodau i brynu plac Cymraeg newydd. **Penderfynwyd.**
- Dywedodd y Cynghorydd Mike Kermode wrth yr Aelodau fod Cyngor Tref Rhuddlan wedi derbyn ffotograff mawr mewn ffrâm o’r Brenin Charles III. Gofynnwyd i’r Aelodau a oeddynt yn dymuno i’r llun gael ei arddangos yn yr Hwb neu a ddylid ei roi i’r ganolfan gymuned. Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo, a phleidleisiodd yr Aelodau i’w roi i’r ganolfan gymuned. **Penderfynwyd.**
- Roedd y Maer wedi derbyn cwyn ynglŷn â datblygiad The Rise, ac roedd wedi awgrymu bod yr achwynydd yn cysylltu â Llywodraeth Cymru a wnaeth gymeradwyo’r cais cynllunio ar apêl.
- Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau fod CSDd wedi derbyn gwybodaeth fod rhywun sy’n mynd â’i gi am dro yn rheolaidd yn gadael i’r ci faeddu, ac nid yw’n codi’r baw. Mae CSDd yn dweud y bydd yn monitro’r ardal yn ofalus.

**18. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 13/6/2024 Cyfarfod y Cyngor Llawn 7pm**

**Llofnodwyd ………………………………………………………………………………..Y Cynghorydd Val Simmons (Maer)**

**Dyddiad 13 Mehefin 2024.**